# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 25 Mawrth 2021**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Pearl Evans

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyng. Dyfrig Jones.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
**3.1** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ffens/rhwystrau wedi eu gosod ar waelod y llwybr, ond yr aelodau yn meddwl bod angen un neu ddau ychwanegol, er mwyn rhwystro'r ochr gyda gollwng serth. Y Clerc a'r Cyng. Paul Rowlinson i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2021.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd. Y Clerc wedi siarad gyda'r Adran Cynllunio, sydd am gysylltu gyda'r perchennog unwaith eto.
**5.2** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y llochesi wedi eu harchebu ac rydym yn disgwyl pris gan gontractwr lleol i'w gosod.
**5.3** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.
**5.4** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd wedi llenwi'r twll mwyaf, ac mwy na thebyg na gwaith 'patcho' fydd yn cael ei wneud ar y gweddill hefyd, yn hytrach na ail-arwynebu'r ffordd. Y gwaith ar y gweill.

**5.5** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn. Cyngor Gwynedd am wneud archwiliad arall ar y safle. Y Cyng. Rheinallt Puw yn trafod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.
**5.6** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
**5.7** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Angen eu paentio/adnewyddu. Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi - ar y gweill.
**5.8** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd. Y Clerc i holi unwaith eto.
**5.9** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – y llwybr wedi dirywio yn ofnadwy. Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant ar gyfer gwneud y gwaith. Y gwaith ar y llwybr wedi ei gwblhau a'r llwybr ar agor unwaith eto.
**5.10** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.
**5.11 Diffibriliwr ar gyfer Rachub a Gerlan –** penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i osod un wrth Siop Rachub, ac un arall wrth y Caban yn Gerlan. Perchnogion yr adeiladu yn fodlon, felly diffibrilwyr wedi eu harchebu.
**5.12 Twmpathau ger Llwyn Bedw** – wedi cael eu ail-wneud, ond dal llawer o gwynion eu bod yn rhy uchel. Y Cyng. Paul Rowlinson am holi Cyngor Gwynedd.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Dim cyfarfod wedi bod.

**7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**
Cyfarfod Y Wyddfa – cyfarfod ar lein i drafod y problemau parcio wrth Llyn Ogwen. Trafodwyd y nifer problemau ac rhai opsiynau fydd yn lleihau'r broblem. Diolch i'r Cyngr. Godfrey Northam a Paul Rowlinson am adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**8. Crawia/pileri llechi**
Trafodwyd y sefyllfa diweddar yn Y Wern, Gerlan lle bu gyfnewid y pileri llechi gyda ffens uchel a weiren bigog. Mae'n rhaid bod yn ofalus bod hyn ddim yn digwydd eto. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn cofnodi pob llwybr llechi sydd yn y plwy a dod a'r rhestr i'r cyfarfod nesaf. Mae angen gwneud yn siwr bod rhain, sy'n gofnod pwysig yn ein hanes, yn cael eu gwarchod.

**9. Paentio adeiladau y Stryd Fawr**
Trafodwyd yn fras y grant sydd wedi ei dderbyn gan LleCHI a fydd yn cael ei ychwanegu at gyllideb y Cyngor Cymuned i Harddu'r Stryd Fawr. Bydd holl drigolion y Stryd Fawr yn gallu ymgeisio am baent a deunyddiau eraill i uwchraddio'u adeiladau.

**10. Lwfans Blynyddol**
Pawb wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc.

**11. Maes parcio Gerlan**
Dim penderfyniad wedi dod ynglŷn a'r cais am fenthyciad i'r Llywodraeth.

**12. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2021'
**12.1** Ebost gan Cyngor Gwynedd – ynglŷn a chytundeb y toiledau cyhoeddus. Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i gario ymlaen gyda'r cytundeb bartneriaeth.
**12.2** Ebost gan Un Llais Cymru – manylion aelodaeth 2021-22. Penderfynwyd bod y Cyngor am adnewyddu eu aelodaeth.
**12.3** E-bost gan National Association of Local Councils (NALC) drwy law Un Llais Cymru – The Good Councillor's Guide to Cyber Security (dim ond copi uniaith Saesneg ar gael). Pawb i'w ddarllen.
**12.4** E-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2021-22. Pawb i'w ddarllen.
**12.5** Ebost gan Cylch yr Iaith parthed y datblygiad arfaethedig ar dir gyferbyn â Maes Bleddyn, Rachub. Nodwyd yr ohebiaeth.
**12.6** Ebost gan Llywodraeth Cymru – Crynodeb o brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref.
**12.7** Ebyst rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd a Lisa Jên Brown ynglŷn a'r pileri llechi ar y llwybr yn Y Wern, Gerlan. Y Cyngor wedi trafod y mater o dan Eitem 8.

**13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C20/0716/13/LL**
1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**
4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0805/13/LL**
Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0087/13/DT**
Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**
**C21/0083/13/DT**
Craig Ogwen, Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

Cais ar gyfer codi tŷ gwydr i gefn yr eiddo.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**14. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mawrth) | £302.27 |
| CThEM (Mawrth) | £75.60 |
| Partneriaeth Ogwen-Swyddog Cynnal | £6471.62 |
| Partneriaeth Ogwen – wi fi cymunedol | £1000.00 |
| Ffenestri Sgwar – glanhau'r gofeb | £150.00 |
| Partneriaeth Ogwen – halen a biniau halen | £2487.37 |
| Defib Store Ltd | £3023.16 |
| Opus Energy – trydan Llys Dafydd | £98.34 |